

**CYFARFOD Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 7fed Chwefror 2018 yn y Swyddfeydd Dinesig, Canolfan Gymunedol Ffordd Wellington, y Rhyl, yn dechrau am 6.00pm.

### YN BRESENNOL

Y Cyngorydd A. J. Rutherford (Cadeirydd)

Y Cyngorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, A. R. James, A. S. Johnson, B. Jones, K. R. Jones, Mrs P. M. Jones, Ms J. McAlpine, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Ms V. Roberts, T. Thomas a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref  
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

### 102. YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cyngorwyr J. Ball, Ms J. Hughes, a Mrs. D.L. King

### 103. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU - IONAWR 2018

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad (a ddisbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu atodlen o daliadau a wnaed.

Rhif Taleb	Enw'r Cyflenwr	Swm £	Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau
407	Shire Leasing Group	337.33	Prydles system ffôn Avaya Ch4 2017/18
408	BT	348.61	Rhentu llinell a thaliadau
409	BT	87.71	Rhentu llinell ar gyfer peiriant ffrancio
252	Cymdeithas Gymunedol y Rhyl	4,500.00	Rhent ar gyfer y swyddfeydd dinesig Ch4 2017/18
410	HSBC	5.50	Taliadau banc
411	Sage & Co	30.00	Gwasanaeth cyflogres Ionawr 2018
417	Cyngor Sir y Fflint	4,141.80	Cyfraniadau pensiwn ac ariannu diffyg Rhag 2017
418	HMRC	2,557.82	Didyniadau cyflog Rhag 2017
419	Staff Cyngor Tref y Rhyl	6,645.17	Cyflogau staff Ionawr 2018
420	Gunsmoke Communications	1,600.00	Gwasanaethau digwyddiadau Rhagfyr 2017
260	Siop Cyngor ar Fudd-daliadau	916.66	Cyfraniad 9 o 12 Swyddog Apeliadau
258	Cyngor Sir Ddinbych	686.00	Y Dreth Gyngor 2017/18 taliad 9 o 10
421	Sioned Graham-Cameron	405.41	Gwasanaethau cyfieithu
269	Cyngor ar Bopeth	2,000.00	Cyfraniad Cyngorydd Ynni 2017/18 taliad 4 o 4
	Cyfanswm taliadau	24,262.01	

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r adroddid.

**104. AWURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY**

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017 ac yn unol â'r rheoliadau ariannol a fabwysiadwyd gan y Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau afreolaidd i'w gwneud dros y misoedd i ddod) (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen).

Rhif Taleb	Enw'r Cyflenwr	Disgrifiad o'r Gwasanaeth	Swm £
417	Sand in Your Eye Ltd	Gweithdai digwyddiad SeaFest 2018 – blaendal 50% wrth drefnu	1,038.00
418	Racecraft Signs	Diweddarau bwrdd anrhydeddau yn y siambr	162.00
419	St. John Cymru	Darpariaeth Cymorth Cyntaf Digwyddiad y Nadolig yn Neuadd y Dref 9/12/17	60.00
420	Proarb	Coeden Nadolig 2017	1,272.00
305	Y Cyngorydd A. R. James	Taliad Iwfans Maer 3 o 3	997.50
306	Y Cyngorydd P. Prendergast	Taliad Dirprwy Faer 3 o 3	332.50
422	Comisiynydd Gwybodaeth	Ffi Cofrestru 2018/19	35.00
<b>Cyfanswm taliadau</b>			<b>£3,897.00</b>

Cymeradwywyd y canlynol fel ychwanegiad i'r rhestr o gyflenwyr cymeradwy:

- Sand in Your Eye Ltd – i ddarparu gweithdai yn SeaFest 2018

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r atodlen i'w thalu a'u llofnodi gan y Cadeirydd a'r Cyngorydd A. R. James.

**PENDERFYNWYD YMHELLACH** atal y Rheolau Sefydlog i alluogi i Glerc y Dref ymateb fel mater o frys.

**105. CYFRIFON ARIANNOL HYD AT 31AIN RHAGFYR 2017 AC AMCANESTYNIADAU AR GYFER BLWYDDYN ARIANNOL 2017/18**

Cyflwynodd Clerc y Dref ei gyd-adroddiad ef a'r Swyddog Cyllid (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen) yn dangos perfformiad o gymharu â'r gyllideb, yr oedd angen ei gyflwyno i'r aelodau bob chwarter.

**PENDERFYNWYD:**

- Derbyn yr adroddiad.*
- (yn amodol ar gytundeb ysgrifenedig) cymeradwyo taliad o £150,000 tuag at y parc dŵr newydd i Gyngor Sir Ddinbych.*
- Nodwyd y diffyg tebygol o £91,357 ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31ain Mawrth 2018.*

**106. POLISI CRONFEYDD WRTH GEFN CYNGOR TREF Y RHYL**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y polisi drafft fel yr argymhellwyd gan yr Is-bwyllgor Asesu Risg (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen).

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r polisi.

**107. RHEOLI'R TRYSORLYS – STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL – AROLWG 2018/19**

Cyflwynodd Clerc y Dref ei gyd-adroddiad ef a'r Swyddog Cyllid (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen).

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r Strategaeth Fuddsoddi ar gyfer 2018/19 fel yr argymhellwyd gan yr Is-bwyllgor Asesu Risg.

**108. AROLWG O GYNGHORAU TREF A CHYMUNED:**

**(i) YMATEB ARFAETHEDIG Y CYNGOR TREF**

**(ii) PRESENOLDEB ARFAETHEDIG MEWN DIGWYDDIAD YMGYSYLLTU**

Ymateb Arfaethedig y Cyngor Tref

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen) yn cynnwys ymatebion y cynghorwyr i'r pedwar cwestiwn a ofynnwyd gan y Panel Arolygu Annibynnol ar ddyfodol Cynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru.

Ar ôl peth trafodaeth, teimlwyd er bod llawer o bwyntiau da wedi eu codi gan y cynghorwyr, nad oedd eu hymatebion yn cynnig atebion i'r cwestiynau a ofynnwyd, a bod y cwestiynau yn llawer rhy benagored ar gyfer atebion ac awgrymiadau mor gymhleth.

Presenoldeb Arfaethedig yn y digwyddiad ymgysylltu

Yn wyneb yr ymatebion amrywiol a dderbyniwyd gan y cynghorwyr, ni ellid rhoi mandad clir i gynrychiolwyr y Cyngor Tref i fwydo i mewn i'r broses.

Gwnaed awgrym i'r cynrychiolwyr fynd gyda 'briff gwrando' tra'n cael syniadau a materion o'r sesiynau gweithdy.

**PENDERFYNWYD:**

(i) *Bod y Cynghorydd Mrs J. Butterfield YH MBE a Chlerc y Dref yn mynychu'r ail ddigwyddiad ymgynghori ar 7fed Mawrth 2018 yn Wrecsam ac adrodd yn ôl.*

(ii) *Bod y Cynghorydd Butterfield a Chlerc y Dref yn teithio i'r digwyddiad gyda'i gilydd a hawlio treuliau (sef milltired).*

**109. EITEMAU GWYBODAETH GAN YR AELODAU**

Adroddodd Clerc y Dref, yn dilyn cyfarfod Grŵp Cyfeirio Lleol y Rhyl ar 30ain Ionawr 2018, y byddai'r ymgynghorwyr a swyddogion cyfathrebu Cyngor Sir

Ddinbych yn dod i gyfarfod o'r Cyngor Tref yn y dyfodol i gyflwyno manylion yr ymgynghoriad arfaethedig ar uwchgynllun newydd ar gyfer y Rhyl.

**110. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD** gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.

**111. DERBYN ARGYMHELLION GAN Y PWYLLGOR CYNLLUNIO GWEITHREDOL A STRATEGOL AR Y SIOP CYNGOR AR FUDD-DALIADAU – SWYDDOG APELIADAU**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad y Pwyllgor CGS (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn argymhell bod y Cyngor Tref yn parhau i ddarparu cyllid rhannol ar gyfer swydd y Swyddog Apeliadau.

**PENDERFYNWYD** bod y Cyngor Tref yn parhau gyda'r trefniant presennol ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19 (£11,000 o'r gyllideb Gwasanaethau a Gomisynir).

**PENDERFYNWYD YMHELLACH** atal y Rheolau Sefydlog i alluogi i Glerc y Dref ymateb fel mater o frys.

**112. DERBYN ARGYMHELLION GAN Y PWYLLGOR CGS AR GYNGOR AR BOPETH – SWYDDOG ARBED YNNI**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad y Pwyllgor CGS (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn argymhell bod y Cyngor Tref yn parhau i ddarparu cyllid rhannol ar gyfer swydd y Swyddog Arbed Ynni.

**PENDERFYNWYD** bod y Cyngor Tref yn parhau gyda'r trefniant presennol ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19 (£8,000 o'r gyllideb Gwasanaethau a Gomisynir).

**PENDERFYNWYD YMHELLACH** atal y Rheolau Sefydlog i alluogi i Glerc y Dref ymateb fel mater o frys.

**113. EITEM YCHWANEGOL: GOLEADAU ARFAETHEDIG CYNGOR SIR DDINBYCH AR Y PROMENÂD**

Dosbarthodd Glerc y Dref adroddiad gan y Pwyllgor CGS ar ôl i swyddogion Cyngor Sir Ddinbych Mr Andy Clark, Uned Gwaith a Rheolwr Parthau Stryd a Mr Andy Hughes, Rheolwr Technegol fynychu'r cyfarfod diwethaf i gyflwyno cynllun goleuadau LED newydd ar y promenâd.

Byddai'r cynllun yn cael arbedion hirdymor gan fod goleuadau LED yn llawer mwy ynni-effeithlon ac yn darparu thema gyson yn nhŵr y cloc, y rhaeadr a'r theatr ac ym mynedfa'r gerddi coffa, a fyddai'n hawdd ei raglennu gyda nifer fawr o liwiau ar gael i gefnogi dyddiau cenedlaethol neu ddigwyddiadau.

Byddai'r cynllun yn costio £27,374, £10,000 o hwn yn cael ei dalu gan danwariant cyllideb 2017/18 Mr Clark's 2017/18 ac arbedion. Gofynnwyd i'r Cyngor Tref

ystyried talu'r diffyg o £17,374 erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon, i alluogi cyflwyno'r archeb erbyn hynny ac i'r gwaith gosod ddechrau'n fuan wedyn.

Dywedodd Clerc y Dref mai argymhelliad y Pwyllgor CGS oedd i'r Cyngor ddarparu'r £17,374 i alluogi gwireddu un o ddyheadau hirdymor y Cyngor Tref i ddarparu gwell cynllun goleuo ar y promenâd.

Ychwanegodd Clerc y Dref ei fod eisiau cyfarwyddyd gan y Pwyllgor cyn cyflwyno'r penderfyniad i gyfarfod mis Chwefror y Cyngor i'w gymeradwyo'n ffurfiol, a'i fod wedi adnabod arbedion yn y gyllideb o £17,374 i alluogi symud ymlaen gyda'r cynllun arfaethedig, os bydd y pwyllgor yn cefnogi hynny.

**PENDERFYNWYD** bod y pwyllgor yn cefnogi'r cynllun arfaethedig.

#### **114. CANOLFAN GYMUNEDOL TYNEWYDD**

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen) ar ôl ceisiadau gan yr aelodau i ddyfodol y ganolfan gael ei ystyried.

**PENDERFYNWYD** bod Clerc y Dref yn trefnu prisio'r adeilad gyda golwg ar ei werthu.

#### **115. EITEM SEFYDLOG – GORCHMYNION CAU HEDDLU GOGLEDD CYMRU**

Ymhellach i gofnod rhif 79 cyfarfod a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, dywedodd Clerc y Dref nad oedd unrhyw geisiadau wedi eu derbyn gan Heddlu Gogledd Cymru.

#### **116. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, datganodd y Cadeirydd bod y cyfarfod ar ben.

Cadeirydd:.....

Dyddiad: .....